



Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Cymerau

Dyddiad yr arolygiad: Ebrill 2023

gan Estyn, Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Trosolwg

Mae Ysgol Cymerau yn ysgol hapus a chynhwysol sy'n darparu cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddysgu am eu hardal, eu diwylliant a'u treftadaeth yn ogystal â'r byd ehangach. Trwy arweinyddiaeth gadarn y pennaeth, mae'r staff ac aelodau'r corff llywodraethol yn ymrwmo i greu amgylchedd dysgu ysgogol a buddiol i'r disgyblion. Ar draws yr ysgol, mae ymddygiad y rhan fwyaf o ddisgyblion yn dda iawn ac maent yn arddangos agweddau cadarnhaol at eu dysgu. Maent yn falch iawn o'u hysgol ac yn cefnogi ei gilydd yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu yn ystod eu hamser yn yr ysgol.

Mae gan staff berthynas waith gynhyrchiol â disgyblion ac maent yn eu hannog i roi o'u gorau. Maent yn creu amgylchedd dysgu deniadol ac ysgogol sy'n annog disgyblion i ymgymryd ag ystod dda o brofiadau dysgu a chwarae buddiol. Yn yr arfer orau, mae disgyblion yn cymryd perchnogaeth o'u dysgu ac yn datblygu eu medrau dysgu annibynnol yn llwyddiannus. Er hyn, yn gyffredinol, mae staff yn dueddol o or-arwain y dysgu sydd yn ei dro yn llesteirio gallu disgyblion i wneud dewisiadau annibynnol a chymryd cyfrifoldeb am eu dysgu. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymateb yn dda i adborth llafar, er prin yw'r cyfleoedd iddynt wella eu gwaith eu hunain yn dilyn adborth ysgrifenedig gan athrawon.

Mae'r pennaeth ac arweinwyr yn blaenoriaethu lles staff a disgyblion ac yn eu cefnogi'n dda. Maent yn rhannu eu gweledigaeth a gwerthoedd yr ysgol yn llwyddiannus â rhanddeiliaid sy'n gosod cyfeiriad strategol bwriadus ar eu cyfer. Mae aelodau'r corff llywodraethol yn cyfrannu'n werthfawr at lwyddiant yr ysgol. Er bod gan arweinwyr ddealltwriaeth addas o'u hysgol, nid yw'r prosesau hunanwerthuso yn ddigon miniog i ddylanwadu'n ddigon effeithiol ar elfennau pwysig o'r ddarpariaeth a safonau disgyblion.

Argymhellion

- A1 Mireinio prosesau hunanwerthuso er mwyn sicrhau gwelliannau yn y ddarpariaeth a chynnydd ym medrau disgyblion
- A2 Sicrhau bod yr addysgu yn cynnig cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau dysgu annibynnol yn effeithiol
- A3 Gwella'r cyfleoedd i ddisgyblion ymateb i adborth er mwyn gwella eu gwaith a chymryd mwy o gyfrifoldeb am eu dysgu

Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ar ei gwaith mewn perthynas â defnydd o'r ardal leol er mwyn cyfoethogi'r cwricwlwm a Chymreictod disgyblion, i'w lledaenu ar wefan Estyn.



Cyd-destun yr ysgol

Enw'r darparwr	Ysgol Cymerau
Awdurdod lleol	Cyngor Gwynedd
Iaith y darparwr	Cymraeg
Math o ysgol	Cynradd
Cymeriad crefyddol	
Nifer y disgyblion ar y gofrestr	293
Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol	232
Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol)	33
Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 23.0%)	16.7%
Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 16.1%)	23.7%
Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd	53.4%
Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol	4.3%
Dyddiad penodi'r pennaeth	01/09/2020
Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol)	04/01/2016
Dyddiad dechrau'r arolydiad	25/04/2023

Ⓜ Hawlfraint y Goron 2023: Gellir aildddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 30/06/2023

Sylwer, efallai na fydd y ffotograffau sy'n cael eu dangos yn rhai o'r ysgol sy'n destun yr adroddiad hwn.